

Ymgynghoriad ar strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru: miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Yr Athro Christine James – ar ran

Sefydliad (os yw'n berthnasol):
Cymdeithas Ddysgedig Cymru

e-bost/rhif ffôn: cddc@cymru.ac.uk

Eich cyfeiriad:

Cymdeithas Ddysgedig Cymru
Cofrestrfa'r Brifysgol, Rhodfa'r Brenin Edward VII,
Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NS

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **31 Hydref 2016** i:

Uned y Gymraeg
Is-Adran y Gymraeg
Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: UnedlaithGymraegWelshLanguageUnit@cymru.gsi.gov.uk

Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno gyda'r dull o greu strategaeth hirdymor ar gyfer y Gymraeg?

| | | | | | |
|---------------|-------------------------------------|------------------|--------------------------|--|--------------------------|
| Cytuno | <input checked="" type="checkbox"/> | Anghytuno | <input type="checkbox"/> | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | <input type="checkbox"/> |
|---------------|-------------------------------------|------------------|--------------------------|--|--------------------------|

Sylwadau pellach

Y mae'r ymateb a ganlyn yn seiliedig ar y rhagdybiaeth waelodol bod y Gymraeg yn drysor ddiwylliannol amhrisiadwy y dylid cymryd pob cam posibl nid yn unig i'w gwarchod rhag dirywiad pellach yn nifer ei siaradwyr, ond hefyd i'w hybu trwy dyfu ac ehangu'r defnydd ohoni.

Cytunwn â chanfyddiad Llywodraeth Cymru na ellir atal na gwrthdroi'r gostyngiad cyson a welwyd yn nifer siaradwyr y Gymraeg dros gyfnod o ganrif a rhagor, ac adfer (yn fras) nifer y siaradwyr i'r lefelau a fodolai yn 1911, heb weledigaeth uchelgeisiol a chreadigol, ynghyd â strategaeth hirdymor a fydd o anghenraid yn rhychwantu mwy nag un genhedlaeth o siaradwyr a darpar-siaradwyr.

Derbyniwn mai Llywodraeth Cymru yw'r unig gorff priodol i ymgymryd â'r gwaith o drefnu, cydlynu ac ariannu strategaeth gynhwysol ac uchelgeisiol o'r fath, drwy gynllun, polisi a deddfwriaeth. Cydnabyddwn hefyd yr angen i Lywodraeth Cymru gydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid, proffesiynol a lleyg, mewn gwahanol sectorau ar draws bywyd Cymru, os bydd yr uchelgais i'w wireddu a'r strategaeth i lwyddo.

Er ein bod yn croesawu'r nod o 'miliwn o siaradwyr' erbyn 2050, y mae'n rhaid hefyd nodi y byddai'r Gymraeg o hyd yn iaith leiafrifol o gyrraedd y nod. Credwn mai'r gwir nod hir-dymor y dylai Llywodraeth Cymru gyrchu ato yw sefyllfa lle y mae Cymru'n wlad gwbl ddwyieithog erbyn diwedd y ganrif (os nad yn wir cyn hynny), gan adfer felly'r statws a fu i'r Gymraeg dros bron y cyfan o'i hanes, sef yn brif iaith gymunedol Cymru.

Cwestiwn 2 – Ar wahân i filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, does dim targedau penodol ynghlwm wrth y strategaeth ddrafft hon ar hyn o bryd. Yn eich barn chi, a oes unrhyw dargedau neu gerrig milltir penodol y dylid eu defnyddio er mwyn mapio'r siwrne a mesur ein cynnydd tuag at filiwn o siaradwyr?

| | | | | | |
|------------|-------------------------------------|----------------|--------------------------|---------------------|--------------------------|
| Oes | <input checked="" type="checkbox"/> | Nac oes | <input type="checkbox"/> | Ddim yn siŵr | <input type="checkbox"/> |
|------------|-------------------------------------|----------------|--------------------------|---------------------|--------------------------|

Sylwadau pellach

Er bod 'miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050' yn nod hirdymor, rydym o'r farn bendant bod y cyfnod dan sylw (sef bron i 35 mlynedd) yn un rhy hir i beidio â'i rannu'n gyfnodau llai y dylai fod gan bob un ei darged pendant. Byddai'r targedau hynny'n caniatáu monitro cynnydd yn gyson, gan gynnig cyfle i addasu'r model pe bai angen er mwyn sicrhau parhâd mewn momentwm ar hyd cyfnod y strategaeth a chyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr erbyn 2050.

Derbyniwn y rhagdyb y bydd y cynnydd yn debygol o fod yn arafach yn y blynyddoedd cyntaf, gyda'r cynnydd mwyaf yn digwydd tua diwedd y cyfnod, ond gyda buddsoddi digonol, sylweddol mewn addysg Gymraeg ar draws y sector, o'r plant lleiaf hyd at lefel brifysgol, a chyda hyfforddiant proffesiynol o'r radd flaenaf i athrawon a thiwtoriaid, credwn y gellid gwneud gwahaniaeth arwyddocaol mewn byr amser, a fydd yn ei dro yn creu brwdfrydedd a momentwm ar gyfer parhad y fenter.

Y mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi'r amrywio arwyddocaol sy'n bodoli mewn gwahanol amcangyfrifon o nifer siaradwyr y Gymraeg. Credwn mai un o'r tasgau cychwynol pwysicaf wrth weithredu'r strategaeth arfaethedig fydd diffinio'r hyn a olygir wrth "siaradwr Cymraeg", a hefyd wrth dermau fel "ddwyieithrwydd / dwyieithog", nid yn unig er mwyn bod yn gwbl eglur ynglŷn â'r nod terfynol, ond hefyd er mwyn sefydlu ystadegau dibynadwy y gellid mesur cynnydd yn eu herbyn mewn ffordd ddilys a thryloyw ar hyd y cyfnod tan 2050.

Fel Cymdeithas Ddysgedig credwn y dylid manteiso ar yr arbenigedd a'r ymchwil ysgolheigaidd ym maes caffael iaith sy'n bodoli ym mhrifysgolion Cymru a'r tu hwnt, i ddarparu cyngor sy'n seiliedig ar astudiaethau achos profedig (gan gynnwys astudiaethau cymariaethol rhyngwladol) ynghyd â modelau theoretig y gellid wedyn fapio cynnydd strategaeth Llywodraeth Cymru yn eu herbyn.

Cwestiwn 3 – Ydych chi'n cytuno'n gyffredinol â'r chwe maes datblygu a amlinellir yn y strategaeth – sef Cynllunio, Normaleiddio, Addysg, Pobl, Cefnogi, a Hawliau?

| | | | | | |
|---------------|-------------------------------------|------------------|--------------------------|--|--------------------------|
| Cytuno | <input checked="" type="checkbox"/> | Anghytuno | <input type="checkbox"/> | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | <input type="checkbox"/> |
|---------------|-------------------------------------|------------------|--------------------------|--|--------------------------|

Sylwadau pellach

Credwn y gellid gosod yr holl weithgarwch angenrheidiol i gyrraedd y nod o greu miliwn o siaradwyr erbyn 2050 o dan benawdau'r chwe maes datblygu a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori.

Cwestiwn 4 – Sut y gallwch chi gyfrannu at gyflawni'r weledigaeth sydd yn y strategaeth?

Gall Cymdeithas Ddysgedig Cymru, trwy ei Chymrodyr, ddarparu arbenigedd a chyngor i Lywodraeth Cymru ar wahanol agweddau ar y strategaeth dan sylw, ac ar y camau mwyaf effeithiol yn y broses o'i gweithredu. Ymhlith ein Cymrodyr y mae nifer sylweddol o ysgolheigion ac ymarferwyr sy'n arbenigo mewn amryw o feysydd sy'n dra pherthnasol i'r strategaeth hon, gan gynnwys meysydd fel y rhai a ganlyn:

- Hyfforddi athrawon a darpar-athrawon
- Cyflwyno'r Gymraeg fel ail iaith i blant, pobl ifainc ac oedolion (yn y sector addysg uwch a'r sector addysg bellach)
- Gloywi Cymraeg siaradwyr brodorol a'r rhai y mae'r Gymraeg yn ail iaith iddynt
- Cyngori ar natur dwyieithrwydd a diglosia trwy gymharu â sefyllfaoedd eraill yn fyd-eang
- Hybu gwell dealltwriaeth o fanteision dwyieithrwydd ymhlith plant ac oedolion fel ei gilydd
- Normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg mewn amrywiaeth o gyd-destunau academiaidd, swyddogol a chymdeithasol y daeth defnyddio'r Saesneg yn arferol ynddynt
- Darparu cyngor ac arbenigedd ar faterion fel cyfieithu, trawsieithu a throsi
- Darparu cyngor ac arbenigedd ar y defnydd o dechnoleg
- Polisi cymdeithasol a sosio-ieithyddiaeth
- Hybu'r ymwybyddiaeth o hunaniaeth Gymreig trwy ddehongli hanes a llenyddiaeth Cymru

D. S. Nid yw'r rhestr uchod yn honni bod yn holl-gynhwysfawr.

Cwestiwn 5 – A oes amcanion neu gamau nad ydym wedi eu nodi yn y ddogfen hon y dylid eu cynnwys er mwyn gwella cynllunio mewn perthynas â'r Gymraeg?

| | | | | | |
|------------|-------------------------------------|----------------|--------------------------|---------------------|--------------------------|
| Oes | <input checked="" type="checkbox"/> | Nac oes | <input type="checkbox"/> | Ddim yn siŵr | <input type="checkbox"/> |
|------------|-------------------------------------|----------------|--------------------------|---------------------|--------------------------|

Sylwadau pellach

Credwn y dylid symud ymlaen ar fyrder i osod gwerth arbennig ar hyfedredd yn y Gymraeg fel cymhwyster ar gyfer rhai cyrsiau galwedigaethol allweddol yng Nghymru, e.e. nyrsio, meddygaeth, addysg, gwaith cymdeithasol, busnes &c. Y ddelfryd maes o law fyddai darparu hyfforddiant proffesiynol cyflawn trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer y meysydd hyn oll, ond yn y byr dymor byddai gosod gwerth hyn-a-hyn o 'bwyntiau mynediad' ar y gallu i gynnal sgwrs gyffredinol, rugl yn y Gymraeg wrth i ddarpar-fyfyrwyr wneud

cais i ddilyn cyrsiau ym mrifysgolion Cymru, yn arwydd clir o fwriad Llywodraeth Cymru yn hyn o beth.

Wrth roi camau ac amcanion yn eu lle ar gyfer meysydd penodol (e.e. addysg / iechyd / gofal cymdeithasol / busnes &c) yn naturiol bydd angen darparu cyllid digonol ynghyd â chefnogaeth ymarferol ar ffurf hyfforddiant proffesiynol mewn sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach.

Maes allweddol bwysig o safbwynt hybu'r defnyddo'r Gymraeg yn y gweithle fyddai gwneud hyfedredd yn y Gymraeg yn rhan bwysig o'r hyfforddiant a gynigir ar gyfer prentisiaethau.

Cwestiwn 6 – Yn eich barn chi, sut arall y gallwn ni wella ewyllys da at y Gymraeg er mwyn ei “normaleiddio” ymhellach?

Mae'r iaith Gymraeg yn rhan annatod o'n hunaniaeth fel cenedl. Drwy hyrwyddo'r Gymraeg bydd modd hefyd hyrwyddo ein hunaniaeth, a thrwy hyn godi ein hymdeimlad o gyberthyn fel cenedl a'n hyder ynom ni ein hunain fel Cymry (sef trigolion sy'n rhannu'r un darn o dir).

Gellid gwella ewyllys da at y Gymraeg

- drwy ledaenu gwell dealltwriaeth o'r hunaniaeth genedlaethol yn ei holl amrywiaeth. Gellid cyflawni hyn trwy sicrhau bod ein naratif cenedlaethol – ein hanes fel gwlad ac fel pobl – yn cael lle dyledus ar gwricwlwm ysgolion Cymru, ar y cyfryngau torfol, yn y disgwrs gwleidyddol ac mewn digwyddiadau cyhoeddus &c.
- drwy hybu dealltwriaeth am natur dwyieithrwydd fel sbectrum hyfedredd ieithyddol
- drwy ddangos bod dwyieithrwydd yn gyflwr cynhwysol yn hytrach nag un gwahaniaethol
- drwy ddangos bod dwyieithrwydd (ac amlieithrwydd &c.) yn norm ac nid yn eithriad yn fyd-eang
- drwy addysgu siaradwyr brodorol ynghylch sut i gefnogi dysgwyr wrth sgwrsio â hwy
- drwy addysgu pobl am y manteision personol, deallusol, cymdeithasol, economaidd &c., a ddaw yn sgil medru'r Gymraeg
- drwy hyrwyddo ymwybyddiaeth bod medru sawl iaith yn llesol yn ymenyddol
- drwy ddangos bod medru sawl iaith yn fodd i agor gorwelion, nid yn eu culhau.

Cwestiwn 7 – Beth arall sydd ei angen er mwyn trosi'r agweddau da sydd gan bobl at y Gymraeg yn siaradwyr?

Mae angen ymgyrch dwys i drosi'r agweddau da hynny ymhlith oedolion yn weithredu cadarnhaol, trwy eu hannog i fynd ati i ddysgu'r Gymraeg eu hunain ac i anfon eu plant i gael addysg gyfrwng Cymraeg.

Yn benodol, dylid cynyddu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer y sector dysgu Cymraeg i oedolion, ac yn ddelfrydol datblygu sefyllfa lle y mae'r gwersi eu hunain am ddim neu fan leiaf yn rhad iawn. At hynny, dylid sicrhau bod yr awdurdodau lleol yn cynnal arolygon blynyddol o'r galw am addysg gyfrwng Cymraeg a sicrhau bod cyllid digonol ar gyfer darparu ysgolion cyfrwng Cymraeg o fewn cyrraedd resymol i bob plentyn trwy Gymru.

Er mai agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg sydd gan y rhan fwyaf, rhaid derbyn hefyd bod agweddau llugoer gan rai, a gelyniaethus gan eraill. Mae gan y Llywodraeth rôl glir yma i arwain wrth ddangos pwysigrwydd y Gymraeg a manteision dwyieithrwydd.

Cwestiwn 8 – A oes amcanion neu gamau nad ydym wedi eu nodi yn y ddogfen hon y dylid eu cynnwys er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n dysgu Cymraeg?

| | | | | | |
|------------|-------------------------------------|----------------|--------------------------|---------------------|--------------------------|
| Oes | <input checked="" type="checkbox"/> | Nac oes | <input type="checkbox"/> | Ddim yn siŵr | <input type="checkbox"/> |
|------------|-------------------------------------|----------------|--------------------------|---------------------|--------------------------|

Sylwadau pellach

Nodwn yma rai amcanion a chmau er nad yw'r rhestr yn hollgynhwysol:

- Mewn cydweithrediad â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol ac â'r Adrannau Cymraeg a'r Adrannau Addysg ym mhrifysgolion Cymru, mae angen sicrhau bod darpar athrawon a darpar diwtoriaid iaith yn cael eu hyfforddi yn y dulliau gorau gan ddarparu adnoddau a chefnogaeth ddigonol.
- Dylid ceisio denu'r myfyrwyr gorau i'r proffesiwn addysgu, gyda bwrseriaethau ac ysgoloriaethau
- Mae angen sicrhau amserlenni hyblyg i ddysgwyr o oedolion gael mynediad at wersi (er enghraifft trwy gynnig abwyd i gyflogwyr i ryddhau gweithwyr i fynychu gwersi yn ystod oriau gwaith)
- Cynnig talu premiwm i diwtoriaid sy'n fodlon dysgu 'oriau anghymdeithasol', er mwyn sicrhau bod gwersi ar gael i bawb
- Datblygu amrywiaeth o ddulliau dysgu i'r 'myfyriwr unigol', ar ffurf cyrsiau o bell, e-gyrsiau, &c.
- Datblygu ryngwynebau electronig, gwefannau, apiau, &c.
- Sicrhau darpariaeth o gefnogaeth i rieni gael mynychu dosbarthiadau, gan gynnwys gofal plant rhad
- Annog newid iaith yr aelwyd trwy gynnig darpariaeth i rieni a phlant ynghyd (gan gynnwys hefyd warchodwyr a'r plant dan eu gofal)
- Sicrhau bod newydd-ddyfodiaid i Gymru yn cael gwybod am y ddarpariaeth sydd ar gael, ac yn teimlo bod croeso iddynt
- Datblygu polisïau penodol ac addas i Gymru ar gyfer mewnfudwyr o dramor, sydd yn hybu'r cyfleoedd iddynt ddysgu'r Gymraeg (a hynny am ddim fel sydd yn digwydd yn achos y Saesneg ar hyn o bryd)

Cwestiwn 9 – A oes amcanion neu gamau nad ydym wedi eu nodi yn y ddogfen hon y dylid eu cynnwys er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio Cymraeg?

| | | | | | |
|------------|-------------------------------------|----------------|--------------------------|---------------------|--------------------------|
| Oes | <input checked="" type="checkbox"/> | Nac oes | <input type="checkbox"/> | Ddim yn siŵr | <input type="checkbox"/> |
|------------|-------------------------------------|----------------|--------------------------|---------------------|--------------------------|

Sylwadau pellach

Mae angen hybu dealltwriaeth o gamau a phrosesau dysgu iaith newydd, yn arbennig ymhlith oedolion. Dylid pwysleisio materion fel y canlynol:

- Bydd angen ymdrech a dyfalbarhad cyn dod yn rhugl
- Mae gwallau / iaith herciog / ffurfiau ansafonol / seibiannau &c. yn arferol ar y dechrau
- Mae newid iaith mewn unrhyw gyd-destun, e.e. mewn perthynas / yn y gweithle / yn gyhoeddus, yn gam mawr bob amser
- Mae angen defnyddio'r iaith ar bob cyfle posibl, a pheidio â phoeni am wallau, nac am gael yr eirfa i gyd wrth law ar unwaith
- Trwy ymarfer – ac ymarfer, ac ymarfer – y daw rhugledd
- Dylid annog dysgwyr i fentro i'r bywyd Cymraeg ehangach, a defnyddio'r iaith y tu allan i gyd-destun y dosbarth trwy fynychu digwyddiadau cymdeithasol er mwyn dod yn rhan gyflawn ac ystyrlon o'r gymuned Gymraeg

Cwestiwn 10 – A oes amcanion neu gamau nad ydym wedi eu nodi yn y ddogfen hon y dylid eu cynnwys er mwyn rhoi gwell seilwaith i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?

| | | | | | |
|------------|-------------------------------------|----------------|--------------------------|---------------------|--------------------------|
| Oes | <input checked="" type="checkbox"/> | Nac oes | <input type="checkbox"/> | Ddim yn siŵr | <input type="checkbox"/> |
|------------|-------------------------------------|----------------|--------------------------|---------------------|--------------------------|

| | | | | | |
|--|--|--|--|--|--|
| | | | | | |
|--|--|--|--|--|--|

Sylwadau pellach

Tynnwyd sylw at amryw o ffactorau wrth ateb cwestiynau eraill.

Mae ariannu geiriadura proffesiynol yn y Gymraeg ynghyd â datblygu cymhorthion electronig ac fel arall i hyrwyddo caffael y Gymraeg a hyfedredd ynddi yn gwbl hanfodol. Yn y cyd-destun hwn mae darparu ffrwd ariannol sicr, gyson a pharhaol i *Eiriadur Prifysgol Cymru* yn gwbl allweddol er mwyn caniatáu i'r uned eiriadurol honno weithredu yn yr un modd ag y mae'r *Oxford English Dictionary* yn gweithredu yn achos y Saesneg.

Cwestiwn 11 – A oes amcanion neu gamau nad ydym wedi eu nodi yn y ddogfen hon y dylid eu cynnwys er mwyn gwella hawliau siaradwyr Cymraeg?

| | | | | | |
|------------|-------------------------------------|----------------|--------------------------|---------------------|--------------------------|
| Oes | <input checked="" type="checkbox"/> | Nac oes | <input type="checkbox"/> | Ddim yn siŵr | <input type="checkbox"/> |
|------------|-------------------------------------|----------------|--------------------------|---------------------|--------------------------|

Sylwadau pellach

Dylid sicrhau bod y cyrff hynny sydd i fod i weithredu'r Safonau a nodwyd ar eu cyfer yn gweithredu'n gyson yn unol â'r hyn a ddisgwylir ganddynt.

Yn achos cyrff a chwmnïau nad ydynt yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg, mae angen ymgyrchu rhagweithiol i weithredu'n ddwyieithog yn wirfoddol, trwy arwyddion a dogfennau dwyieithog, llinellau cyswllt, gwefannau &c.

Mewn ardaloedd poblog neu drefol lle y mae'r Gymraeg yn iaith leiafrifol, byddai annog cwmnïau i arddangos hyfedredd eu staff yn y Gymraeg ar eu bathodynau adnabod yn sicrhau defnydd uwch o'r Gymraeg ar lafar ym mhob rhan o'r wlad.

Yn achos trafndiaeth gyhoeddus mae angen sicrhau bod arwyddion, gwybodaeth am wasanaethau a chyhoeddiadau llafar i gyd yn ddwyieithog ym mhob rhan o Gymru (ac yn cael eu hynganu'n gywir!). Dylai hyn fod yn elfen orfodol wrth ddyfarnu trwyddedu cwmnïau i ddarparu gwasanaethau trenau a bysiau.

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cysonder ffurfiau ar arwyddion ffyrdd ar holl heolydd Cymru, gyda'r Gymraeg uwchben y Saesneg ym mhob man.

Dylai'r Llywodraeth annog cyrff a chwmnïau i roi blaenoriaeth i'r Gymraeg ar arwyddion dwyieithog lle bo rhaid gosod un iaith o flaen y llall, ac anghymeradwyo'r arfer o osod y Gymraeg mewn teip llai o dan y Saesneg.

Dylid hefyd annog cyrff a chwmnïau i sicrhau bod eu holl ffurflenni / taflenni cyhoeddusrwydd &c., ar gael yn ddwyieithog a bod y fersiynau Cymraeg yn cael yr un amlygrwydd â'r rhai Saesneg. Y mae'r arfer o orfod gofyn yn benodol am fersiwn Cymraeg yn annerbyniol.

Cwestiwn 12 – Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyfres o bolisïau manwl mewn meysydd penodol dros gyfnod y strategaeth hon. Pa bolisïau ydych chi'n meddwl y dylem eu blaenoriaethu i'w cyhoeddi dros bum mlynedd cyntaf y strategaeth?

Polisi datblygu addysg gyfrwng Cymraeg a pholisi hybu dysgu Cymraeg i oedolion.

Cwestiwn 13 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Er nad strategaeth ymchwil yw hon fel y cyfryw, diau y deuai budd sylweddol o'i chlymu i ymchwil i amlieithrwydd, a'r modd y mae'r ymennydd dynol yn prosesu iaith. Y mae'n ffaith hysbys bod y rhan fwyaf o boblogaeth y byd yn medru mwy nag un iaith, a bod materion yn ymwneud a dwyieithedd ac amlieithedd yn berthnasol ar draws y byd. Yn y gorffennol y mae Cymru wedi arloesi mewn meysydd yn ymwneud â dwyieithedd a chaffael iaith, ac o fod yn ddigon hyderus ac o 'normaleiddio' a chadarnhau dwyieithrwydd, ac o fuddsoddi mewn ymchwil ac ymarfer yn y meysydd hynny gallwn gael ein gweld yn flaengar ac yn wlad sydd yn arwain ac yn cyfrannu'n arwyddocaol i'r disgwrs pwysig hwn.

Mater arall nad yw'r ddogfen yn rhoi sylw digonol iddo yw'r angen i greu a chynnal cyd-destunau cymdeithasu yn Gymraeg y tu allan i'r ysgol / ystafell dosbarth, yn arbennig ymhlith plant a phobl ifainc, fel bod yr iaith yn peidio â bod yn 'iaith addysg' yn unig ond yn cael rhyddid i gael ei siarad mewn pob math o gyweiriau answyddogol ac anffurfiol. Un peth allweddol yn hyn o beth yw troi iaith cartrefi fel bod y Gymraeg yn brif iaith yr aelwyd. Trawiadol yw'r ffaith bod nifer yr aelwydydd sydd yn trosglwyddo'r Gymraeg i'r plant yn cwmpo o 82% yn achos aelwyddydd lle y gall dau riant siarad Cymraeg i 45% lle y mae un rhiant allan o'r ddau yn medru siarad Cymraeg. Rhaid mynd i'r afael â hyn trwy hyrwyddo dysgu Cymraeg i'r rhieni hynny nad ydynt yn medru'r Gymraeg.

Nid oes digon o sylw yn cael ei roi yn y ddogfen strategaeth i gynnal a hyrwyddo diwylliant a bywyd cymdeithasol Cymraeg ffyniannus a dengar, gan gynnwys diogelu'r gwariant presennol a'i gynyddu mewn meysydd megis cyhoeddi, adnoddau electronig a chyfryngau cymdeithasol, byd cerdd a chelf, theatr, ffilm a darlledu (gan sicrhau bod yr holl ddarlledu Cymraeg ar gael yn rhwydd ac yn hwylus ar bob cyfrwng priodol, gan gynnwys parhau a datblygu'r arbrawf diweddar o gael dwy sianel radio Gymraeg gan y BBC).

Er ein bod yn croesawu'r agwedd gadarnhaol sydd yn y ddogfen hon, ein pryder mwyaf o safbwynt parhad a ffyniant y Gymraeg yw ei diflaniad araf hi fel iaith gymunedol fwyafrifol yn y rhannau hynny o'r wlad a oedd tan yn ddiweddar yn gadarnleoedd iddi. Er mor bwysig yw buddsoddiad y Llywodraeth, y cynnydd yn nifer yr ysgolion Cymraeg, y rhwydweithio Cymraeg mewn dinasoedd, y cymdeithasu rhithiol digidol ac yn y blaen, mae diflaniad cynifer o'r cymdeithasau naturiol Cymraeg eu hiaith a fu'n cynnal yr iaith gyhyd yn ofid ac yn fgythiad mawr. Heb gymdeithasau o'r fath y perygl yw mai crebachu'n gyson ac araf nychu y bydd y Gymraeg nes iddi fynd yn iaith addysg yn unig i'r mwyafrif, ac ond yn eiddo ystyrlon i grwpiau bychain dosbarth canol ac elitaidd. Yn ogystal â hyrwyddo'r Gymraeg a'r defnydd ohoni ym mhob rhan o Gymru (a'r tu hwnt), y mae o'r pwys mwyaf bod y cymunedau hynny lle y mae'r Gymraeg yn parhau'n iaith gymunedol arwyddocaol yn cael eu diogelu a'u cryfhau, gan dyfu eu nifer nes adfer y Gymraeg yn iaith gymunedol fwyafrifol dros rannau sylweddol o'r wlad cyn gynted â phosibl. Yn y cyd-destun hwn, y mae ffyniant economaidd a pholisiau cynllunio sydd yn ystyried materion ieithyddol a thai fforddiadwy &c. yn gwbl allweddol.

Mae'n allweddol bwysig bod y strwythurau priodol yn eu lle i gyflawni strategaeth uchelgeisiol y Llywodraeth i dyfu'r Gymraeg a'i diwylliant. Roedd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg gyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant ac i gynllunio ar ei chyfer mewn ffyrdd ehangach na'r corff a'i dilynodd, sef Comisynydd y Gymraeg. Galwn ar y Llywodraeth i sefydlu corff a fydd yn gweithredu'r strategaeth hon yn rhagweithiol ac yn egniol er mwyn sicrhau ei llwyddiant er budd y Gymraeg a phob un o drigolion Cymru.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma:

